

# Y Ddeddf Dioddefwyr a Charcharorion

## Taflen ffeithiau IOPC

### Beth yw'r Ddeddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024?

Mae rhan un o'r [Ddeddf Dioddefwyr a Charcharorion \(VPA\) 2024](#) (y VPA) yn cyflwyno mesurau i hyrwyddo a gwella hawliau dioddefwyr a amlinellir yng Nghod y Dioddefwyr a sicrhau bod asiantaethau cyfiawnder troseddol yn cyflawni'r hawliau hyn. Rhaid i IOPC gydymffurfio â'r VPA a'r Cod Dioddefwyr wrth gynnal ymchwiliadau troseddol.

Mae rhagor o wybodaeth am y VPA ar gael yn y cylchlythyr perthnasol gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar y dudalen hon ac yn y [nodiadau esboniadol](#) i'r Ddeddf.

Daeth y rhan fwyaf o ran un y VPA i rym ar 29 Ionawr 2025. Mae'r daflen ffeithiau hon yn ymdrin â sut mae'r VPA yn berthnasol i IOPC. Bydd yn cael ei ddiweddarw wrth i wybodaeth bellach ddod i'n sylw.

### Pwy sy'n cael ei ddiffinio fel dioddefwr o dan y Ddeddf?

Cyflwynodd y VPA ddiffiniad diwygiedig o ddioddefwr sydd, yn fras, yn cynnwys pobl sydd wedi dioddef niwed oherwydd:

- roeddent yn destun ymddygiad troseddol
- gwnaethant weld, clywed, neu brofi ymddygiad troseddol yn uniongyrchol pan y digwyddodd
- bu farw aelod agos o'r teulu o ganlyniad uniongyrchol i ymddygiad troseddol
- mae nhw'n blentyn ac yn ddioddefwr cam-drin domestig, sy'n ymddygiad troseddol

Mae niwed yn cynnwys niwed corfforol, meddyliol neu emosiynol a cholled economaidd.

Mae ymddygiad troseddol yn golygu ymddygiad sy'n drosedd.

### Beth yw Cod y Dioddefwyr?

Mae Cod Ymarfer y Dioddefwyr, a elwir hefyd yn God y Dioddefwyr, yn ganllawiau sy'n ofynnol gan y VPA. Mae'n nodi'r gwasanaethau a'r safonau gofynnol y mae'n rhaid i sefydliadau yng Nghymru a Lloegr eu darparu i ddioddefwr trosedd. Rydym yn un o'r sefydliadau hyn, fel y mae'r heddlu.

## A yw Cod y Dioddefwyr yn berthnasol o fewn ymchwiliadau ac adolygiadau camymddwyn IOPC?

Rhaid i IOPC gydymffurfio â'r VPA a'r Cod Dioddefwyr wrth gynnal ymchwiliad troseddol ond os oes gennych unrhyw gwestiynau, neu os ydych chi'n teimlo bod angen rhagor o gymorth neu wybodaeth arnoch chi, mae croeso i chi gysylltu â'ch pwynt cyswllt IOPC.

## Pa hawliau sydd gan ddioddefwyr o dan Gôd y Dioddefwyr a'r VPA 2024?

Mae 12 prif hawl yn y cod. Mae'r rhain yn ymwneud â phethau fel sicrhau bod dioddefwr/goroeswr yn cael gwybodaeth am yr ymchwiliad, proses yr achos llys a'r canlyniad, a'u hawl i gael eu cyfeirio at wasanaethau cymorth.

O dan rai amgylchiadau, efallai y byddwch hefyd yn gymwys i gael hawliau estynedig.

Mae rhagor o wybodaeth gan gynnwys esboniad llawn o bob hawl a hawliau estynedig ar [gael yma](#).

## Pwy arall all dderbyn hawliau o dan y God y Dioddefwyr?

Gall rhywun hefyd dderbyn hawliau o dan y cod os ydynt yn:

- a) riant neu warcheidwad y dioddefwr os yw'r dioddefwr o dan 18 oed, neu
- b) llefarydd teuluol enwebedig os oes gan y dioddefwr nam meddyliol neu os yw wedi cael ei anafu mor ddrwg oherwydd trosedd fel nad yw'n gallu cyfathrebu neu nad oes ganddo'r gallu i wneud hynny.

## Sut alla i gwyno os ydw i'n teimlo nad yw fy hawliau'n cael eu cynnal o dan God y Dioddefwyr a VPA 2024 mewn ymchwiliad IOPC?

Mae gan ddioddefwyr a goroeswyr hawl i gwyno os nad ydynt yn teimlo bod eu hawliau, yn unol â Chod y Dioddefwyr, yn cael eu cynnal. Yn y lle cyntaf, os ydych chi'n teimlo'n gyfforddus i wneud hynny, dylech chi godi hyn gyda'r tîm ymchwilio fel y gallant eich cynorthwyo'n uniongyrchol.

Os hoffech chi wneud cwyn, gallwch gyflwyno cwyn i dîm Cwynion ac Adborth yr IOPC drwy [Adborth am ein gwasanaeth](#) .

Noder - dim ond ar gyfer cwynion IOPC y mae hyn. Os ydych chi am gwyno am fethiant yr heddlu i gynnal eich hawliau, cysylltwch â'r [gwasanaeth neu'r sefydliad heddlu](#) yr hoffech wneud cwyn amdano.

## Beth yw fy hawliau os ydw i'n anfodlon ag ymateb yr IOPC i'm cwyn?

Os ydych chi'n ddioddefwr/goroeswr o dan Gôd y Dioddefwyr a bod eich cwyn yn ymwneud â methiant IOPC i gydymffurfio â Chod y Dioddefwyr mewn ymchwiliad troseddol annibynnol neu gyfeiriedig, yna gallwch gysylltu ag Ombwdsmon y Gwasanaeth Cyhoeddus a gofyn iddynt edrych ar eich cwyn gan ddefnyddio eu [ffurflen gwyno ar-lein](#) .

Sylwch mai dim ond cwyn am IOPC y bydd yr Ombwdsmon Gwasanaeth Cyhoeddus yn ei hystyried lle mae IOPC yn ymchwilio'n droseddol, neu'n cyfarwyddo ymchwiliad troseddol, a lle rydych wedi cwblhau'r ddau gam o broses gwyno fewnol IOPC ond yn parhau i fod yn anfodlon.

Ni all IOPC uwchgyfeirio eich cwyn at yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus ar eich rhan.

Nid oes llwybr ar gyfer uwchgyfeirio unrhyw gwynion eraill am IOPC na'i staff yn allanol.

## Ble alla i gael cefnogaeth ychwanegol i'm helpu yn ystod fy nghysylltiad â'r IOPC?

Gall IOPC eich cyfeirio at wasanaethau cymorth lleol a chenedlaethol priodol a pherthnasol, yn dibynnu ar eich anghenion. Cysylltwch â'ch pwynt cyswllt IOPC i gael rhagor o wybodaeth. Yn gyffredinol, dyma rai gwasanaethau cymorth defnyddiol:

- Eich meddyg teulu a'r [gwasanaethau](#) GIG.
- Bydd gwefan eich Awdurdod Lleol (cyngor) yn cynnwys gwybodaeth am gymorth lleol.
- Mae'r [Samariaid](#) ar gael 24/7 i siarad ag unrhyw un sydd angen cymorth.
- Mae [Cymorth i Ddioddefwyr](#) yn rhoi cyngor annibynnol, am ddim, a chyfrinachol yn dilyn trosedd.
- Mae [Cruse Bereavement Support](#) ar gael ar gyfer cefnogaeth a chyngor mewn galar.
- Mae [Inquest](#) yn darparu arbenigedd ar farwolaethau ac ymchwiliadau sy'n gysylltiedig â'r wladwriaeth i bobl sydd wedi colli rhywun.
- Mae [Comisiynydd y Dioddefwyr](#) hefyd yn darparu cyngor annibynnol i ddioddefwyr.

**[SWYDDOGOL]**

Cyhoeddwyd Gorffennaf 2025, diweddarwyd Hydref 2026

## © IOPC 2025



This is licensed under the Open Government Licence v3.0  
except where otherwise stated.

This does not include material belonging to third parties.

Authorisation to use such material must be obtained from the copyright holders concerned.

I gael gwybod mwy am ein gwaith neu i ofyn am yr adroddiad  
hwn ar ffurf amgen, gallwch gysylltu â ni mewn nifer o ffyrdd:

**Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC)**  
**10 South Colonnade Canary Wharf London E14 4PU**  
Ffôn: **0300 020 0096**  
E-bost: [enquiries@policeconduct.gov.uk](mailto:enquiries@policeconduct.gov.uk)  
Gwefan: [www.policeconduct.gov.uk](http://www.policeconduct.gov.uk)  
Cyfnewid testun: **18001 020 8104 1220**

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn y Gymraeg

